Brig y Goeden

# Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy

ANGELA BULL



# Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy

ANGELA BULL

Lluniau gan Jacqui Thomas



DRAKE

Lluniau gan Jacqui Thomas
Addasiad Cymraeg gan Mair Loader

© Argraffiad Saesneg, Angela Bull 1998
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2002
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0 86174-486-1

Cyhoeddwyd gan Wasg Addysgol Drake
Ffordd Sain Ffagan, Y Tyllgoed,
Caerdydd CF5 3AE
Ffôn: 029 2056 0333
Ffacs: 029 2055 4909
E-bost: drakegroup@btinternet.com
Y we: www.drakegroup.co.uk

Argraffwyd yng Nghymru

# Pennod 1




Camgymeriad llwyr oedd yr anrheg ben-blwydd!


Roedd Heledd wedi mynd i helpu yn siop grefftau Anti Siw, un Sadwrn. Y bore hwnnw, roedden nhw'n dodi clustogau pinc a glas yn y ffenest.

Ar hynny, cerddodd dwy ferch heibio, y tu allan.

Gwisgai un ferch sgert ddu blaen.



Gwisgai un ferch sgert dartan, lachar iawn.




"On'd yw honno'n hyfryd!" gwaeddodd Heledd, gan edrych ar y sgert ddu.

"Ydi, gwych!" cytunodd Anti Siw, gan edrych ar y sgert dartan.





"Hoffet ti?" meddai Anti Siw. Cofiodd hi ei bod hi'n ben-blwydd ar Heledd yr wythnos ganlynol.

Cafodd Heledd lawer o anrhegion ar ei phen-blwydd. Rhoddodd Mam a Dad siaced iddi.



Rhoddodd ei chwaer Lleucu glip gwallt iddi.



Rhoddodd ei brawd bach Robin baced o gyffug iddi.



Cafodd arian gan Nain, a phentwr o gardiau.

"Ydi Anti Siw ddim wedi anfon rhywbeth?" holodd Lleucu.

Y funud honno, canodd cloch y drws. Yno roedd Anti Siw. Roedd hi'n cario parsel mawr.

"Dwi wedi prynu anrheg arbennig iti, Heledd," meddai hi. "Dwi'n gwybod y byddi di'n ei hoffi."



Datododd Heledd y rhuban a thynnu'r papur yn ôl.

Fflachiodd chwyrlïad o liwiau, coch a melyn, aur ac oren, arni hi. Syllodd Heledd.

Sgert dartan oedd hi.




Doedd Heledd erioed wedi gweld unrhyw beth mor llachar. Roedd y lliwiau coch ac aur, melyn ac oren, yn chwyrlïo i fyny ac i lawr mewn streipiau a sgwariau. Roedd dim ond edrych arnyn nhw yn gwneud i Heledd deimlo'n sâl. Yn sâl ac yn chwil.

"Cilt go iawn yw e, yr holl ffordd o'r Alban," esboniodd Anti Siw. "Roeddet ti'n hoffi'r sgert dartan y tu allan i ffenest fy siop. Felly penderfynais brynu un iti."

"Ew!" ebychodd Robin.



Roedd Lleucu yn cydio yn Ianto ei chi bach. Roedd gan Ianto ddannedd bychain miniog. Roedd e wrth ei fodd yn cnoi dalennau o bapur. Roedd Lleucu mor brysur yn ceisio ei rwystro, sylwodd hi ddim ar y sgert.




"Mae'n anrheg hyfryd," meddai Mam a Dad. Yna edrychodd pawb ar Heledd.



Llyncodd Heledd. Nid y sgert dartan roedd hi eisiau. Yr un ddu oedd hi. Roedd y sgert roedd Anti Siw wedi'i phrynu iddi y sgert hyllaf a welodd hi erioed.

Agorodd ei cheg i ddweud hynny, a'i chau hi eto.


Roedd y teulu i gyd yn gwenu, gan feddwl ei bod hi'n blês.

"O," llyncodd. "Mae'n –"

Stopiodd hi. Doedd hi ddim yn gwybod beth i'w ddweud!



"Gwisga hi," anogodd Mam.




Rhedodd hi i ffwrdd, mor gyflym ag y gallai, gyda'r anrheg ofnadwy.

Yn ei hystafell wely, tynnodd ei jîns. Caeodd y cilt o gwmpas ei chanol.

Fflachiai streipiau coch, melyn ac oren arni o'r drych. Teimlai hi'n dalpiog ac yn hyll.



Dwi'n ei chasáu, meddyliodd Heledd. Mae'n ofnadwy! Roeddwn i eisiau sgert ddu.

Ond doedd hi ddim yn gwybod sut i ddweud hynny.


Gorfododd ei hunan i redeg i lawr y grisiau. Rhoddodd sws i Anti Siw.

"Diolch," mwmiodd. "Mae'n hyfryd."

Ddyfalodd neb ei bod hi'n dweud celwydd.



# Pennod 2



Roedd y sgert dartan yn erchyll. Ond roedd Heledd yn hoff iawn o Anti Siw. Allai hi ddim dweud wrthi ei bod hi'n casáu'r sgert. Ac roedd hi'n ei chasáu.

Weithiau edrychai arni, yn hongian yn y cwpwrdd. Roedd hi'n debyg i holl dân gwyllt Noson Tân Gwyllt, a holl ffrwythau'r archfarchnad wedi'u gwasgu i un patrwm erchyll, chwil. Ofnadwy!

Yn y diwedd penderfynodd holi Lleucu amdani. Roedd Lleucu'n iau na hi, ond gwyddai lawer mwy am ddillad. Roedd hi bob amser yn gwybod beth oedd yn edrych yn dda.




Roedd Lleucu wedi cael cip arni yn y cwpwrdd, pan nad oedd Heledd yno. Roedd hi'n meddwl bod y sgert dartan yn ofnadwy! Ond roedd Heledd wedi dweud wrth Anti Siw ei bod hi'n hyfryd. Efallai ei bod wir yn ei

"Mae'n iawn," meddai Lleucu gan osgoi edrych ar Heledd.



Ochneidiodd Heledd. Nawr allai hi ddim hyd yn oed dweud wrth Lleucu am y sgert. Roedd Lleucu wedi dweud bod y sgert yn iawn. Efallai ei bod hi.

"Mae Anti Siw wedi gofyn iti helpu yn y siop," dywedodd Mam wrth Heledd y dydd Sadwrn nesa. "Byddai hi'n falch iawn petaet ti'n gwisgo dy sgert dartan.


"Mae Robin yn mynd i baentio cadair ei ystafell wely, gyda'r paent gwyn doedd Dad mo'i angen, felly bydd e'n brysur -"



"A dwi'n mynd i ddysgu Ianto sut i ddal pêl," meddai Lleucu.



Aeth Heledd i fyny'r grisiau'n araf, a thynnu ei jîns. Edrychodd yn fanwl ar ei sgert dartan yn y drych. Roedd hi hyd yn oed yn waeth nag a gofiai.



Tynnodd ei chrys chwys hiraf i lawr drosti, mor bell ag y gallai.

"Yn blês gyda'r sgert?" holodd Anti Siw yn llon, pan gyrhaeddodd Heledd.




Helpodd Heledd yn y siop trwy'r bore. Roedd yn eitha hwyl. Ond pan ddôi pobl i mewn, cuddiai y tu ôl i'r cownter. Doedd hi ddim am iddyn nhw rythu ar ei sgert dartan.


Daeth Mam i'w nôl hi i gael cinio gartre.

"Mae'n rhaid iti weld cadair Robin," meddai hi. "Mae e wedi bod yn ei phaentio yn y garej."



"Shwmae!" galwodd Robin, pan welodd Heledd. Roedd e'n neidio lan a lawr yn llawn cyffro. "Dere i weld beth dwi wedi'i wneud! Dwi'n baentiwr penigamp. Dwi'n well na Dad! Dwi'n –"


Sbonciodd yn erbyn y stôl lle safai'r pot paent.




Hedfanodd trwy'r awyr. Tasgodd sgwd mawr o baent gwyn allan. Yn blastr dros sgert dartan Heledd!

Rhythodd Heledd i lawr ar ei sgert. Roedd ei lliwiau llachar wedi'u boddi gan stremp enfawr gwyn.


Roedd Heledd yn gwenu ac yn gwenu.




Rhuthrodd Lleucu a Mam allan i weld beth oedd wedi digwydd.

"Robin, y bachgen diofal," dwrdiodd Mam. "Edrych ar sgert newydd Heledd druan! Paid â phoeni, Heledd. Galla i ei glanhau iti toc."

Diflannodd gwên Heledd.




"Wrth gwrs bod ots," meddai Mam. Doedd hi ddim wedi sylwi ar wyneb Heledd. "Tynna hi. Edrychaf i weld beth allaf

Roedd Heledd wedi cael llond bol. Am un eiliad bendigedig roedd hi'n meddwl fod Robin wedi difetha'r sgert am byth. Ond dim lwc! Llusgodd i fyny'r grisiau yn drist.



Roedd Lleucu'n meddwl.

Pam roedd Heledd wedi edrych mor falch pan dasgodd paent dros ei sgert?
A pham roedd hi mor ddigalon pan ddywedodd Mam y byddai'n ei glanhau?

Roedd yn rhyfedd iawn.

# Pennod 3



Llwyddodd Mam i lanhau'r sgert dartan.
Ac allai Heledd mo'i hanghofio.

"Mae Nain yn galw draw y prynhawn yma," meddai Mam drannoeth. "Pam na wisgi di dy sgert dartan, Heledd?"

Allai Heledd ddim gwrthod. Roedd pawb yn credu ei bod hi'n hoffi'r sgert dartan. Erbyn hyn, roedd hi'n rhy anodd i esbonio nad oedd hi.

Rhaid imi ei gwisgo, meddyliodd Heledd.

"Mawredd mawr!" meddai Nain pan welodd y sgert dartan.




"Mae Heledd yn ei hoffi," meddai Mam.

Ddywedodd Heledd ddim byd. Roedd hi'n gwybod ei bod hi'n edrych yn ofnadwy yn y streipiau a sgwariau llachar yna.



Yn sydyn newidiodd ei hwyl. Fyddai hi ddim yn mynd o gwmpas yn edrych yn ofnadwy mwyach, ddim hyd yn oed er mwyn Anti Siw. Byddai'n stopio bod yn dda!

Cododd gwpanaid o de, a'i sarnu.



Lledodd staen hir tywyll yr holl ffordd i lawr ei sgert dartan. Fyddai hynny'n gweithio? Daliodd Heledd ei gwynt.

"O, Heledd!" gwaeddodd Mam. "Sut wnest ti hynna?"

"Jest ei wneud e," meddai Heledd. Roedd ei llais yn uchel ac yn grac. Ond sylwodd neb.



"Paid â phoeni," meddai Nain yn gysurus. "Bydd Mam yn gallu golchi'r te allan, a bydd y sgert yn iawn eto."

Iawn! Gwgodd Heledd. Teimlai'n wirioneddol grac!




"Tynna hi, a'i gadael ar ben y peiriant golchi," meddai Mam.

Roedd y peiriant golchi yng nghornel y gegin. Roedd bochdew Robin yn byw mewn caets, yn ymyl.

Edrychodd Heledd ar y sgert, ac yna edrychodd ar y caets. Gwyddai beth allai bochdew ei wneud.



Gollyngodd ei sgert dartan ofnadwy ar bwys y caets.



Deffrodd y bochdew. Gwelodd rywbeth hyfryd, gwerth ei gnoi ar bwys y barrau. Doedd dim ots ganddo fe'r sgwariau coch a melyn. Safodd ar ei bawennau ôl ac estyn i fyny.



Storiodd amryw gegaid o sgert dartan flasus yn ei gydau. Roedd e'n dal i gnoi pan ddaeth y teulu i mewn i'r gegin.

Cipiodd Mam y sgert i ffwrdd o'r caets.

"Heledd!" ebychodd hi. "Y ferch wirion! Pam adewaist ti dy sgert nesa at y caets? Edrych ar y tyllau mae'r bochdew wedi'u cnoi."



Doedd dim ots gan Heledd i gael ei galw'n wirion. Pan edrychodd ar y tyllau, pefriodd ei llygaid.





Efallai fod bochdew Robin wedi difetha ei sgert am

Ond roedd Mam yn ymarferol, fel arfer.

"Dwi'n meddwl y gallaf ei thrwsio hi," meddai hi. "Dim ond tyllau bach ydyn nhw."

Cariodd hi'r sgert dartan i ffwrdd.



Bu bron i Heledd grio. Doedd hi byth yn mynd i gael gwared â'i hanrheg ben-blwydd ofnadwy!




Y bore Sadwrn nesa, trawyd hi gan syniad gwych. Roedd hi wedi mynd i'r siop eto, ac roedd Lleucu wedi dod hefyd. Roedd Anti Siw wedi bod yn gwneud teganau ar ffurf trenau. Roedd hi wedi defnyddio tiwb mawr o lud cryf, a'i adael ar fwrdd.

Roedd Heledd wedi gwisgo ei sgert dartan ofnadwy. Edrychodd arni, ac yna edrychodd ar y glud cryf. Fyddai Mam ddim yn cael gwared â hwnnw mor rhwydd ag y cafodd wared â phaent a the!




Yn dawel cododd y glud. Tynnodd y caead, a gosod y glud ar y llawr.





Roedd e reit ar bwys yr ysgol a ddefnyddiai Anti Siw i gyrraedd pethau ar silffoedd uchel.

Dechreuodd Heledd ddringo'r ysgol. Roedd hi wedi penderfynu y byddai'n llithro – yn ddamweiniol!



Byddai'n syrthio'n glec oddi ar yr ysgol ar ben y tiwb. Byddai'r glud cryf yn chwistrellu dros ei sgert –

A dyna fe. Allech chi ddim glanhau glud cryf!

Cymerodd Heledd gam arall i fyny'r ysgol. Dechreuodd siglo'r ysgol.




"Beth yn y byd mae'r glud yna yn ei wneud ar y llawr?" sgrechiodd Anti Siw.





Cydiodd yn y tiwb, sgriwio'r caead yn dynn, a'i ollwng i mewn i ddrôr.

Safai Heledd ar yr ysgol, wedi'i rhewi gan siom.



Syllodd Lleucu arni. Roedd hi wedi gwylio Heledd yn gosod y glud ar bwys yr ysgol.

Pam roedd hi wedi gwneud rhywbeth mor wirion? Nawr, gan edrych ar wyneb Heledd, cofiodd am y paent, a'r te a ollyngwyd, a'r tyllau bochdew. O'r diwedd deallodd hi.

Roedd yn gas gan Heledd y sgert dartan!

Pam na ddywedodd hi ddim? Pendronodd Lleucu. Efallai na allai hi. Druan o Heledd! Allai hi ddim goddef siomi Anti Siw.



Gwenodd Lleucu. Dwi ddim yn debyg i Heledd, penderfynodd hi. Byddwn i wedi dweud fy marn am y sgert yna. Ond nawr bydd yn rhaid imi ddod o hyd i ffordd o'i helpu hi!

# Pennod 4





Paratodd Mam bysgod a sglodion i ginio. Roedd Lleucu'n falch. Byddai'n helpu ei chynllun yn dda.

Arhosodd nes bod Heledd yn dal y botel finegr. Yna rhoddodd hwb i'w phenelin. Tasgodd finegr dros ei sgert dartan i gyd.

"Wn i ddim beth sy'n bod gyda chi ferched. Rydych chi'n gwneud dim ond sarnu pethau," dwrdiodd Mam.


"Mae'n digwydd pan mae Heledd yn gwisgo'r sgert yna," meddai Robin. "Mae'r sgwariau yn troi pobl yn chwil."

"Sothach!" meddai Mam. "Er eu bod nhw ychydig yn llachar. Tynna hi, Heledd. Bydd yn rhaid imi ei golchi hi eto."




Ochneidiodd Heledd. Wyddai hi ddim mai dim ond dechrau cynllun Lleucu oedd sarnu'r finegr.


Golchodd Mam y sgert, a'i thaenu ar y lein. Chwifiodd yn llawen yn y gwynt.



Sbeciodd Lleucu y tu allan. Dyma'r union beth roedd hi'n gobeithio ei weld. Aeth i ffeindio Ianto.

"Gêmau hyfryd!" meddai wrtho. "Gêmau cnoi! Dere 'mlaen."





Rhedodd Ianto ar ei hôl hi, i mewn i'r ardd. Meddyliodd eu bod nhw'n mynd i chwarae. Ond safodd Lleucu ar flaenau'i thraed,
a thynnu peg.

"Fan 'na, Ianto.
Bratha!"
sibrydodd hi.





Rhedodd 'nôl i mewn i'r tŷ.

Roedd Heledd yn ei llofft, yn teimlo'n ddigalon. Yn sydyn clywodd Lleucu yn galw.



Rasiodd Heledd i lawr y grisiau. Roedd Lleucu yn sefyll ar bwys ffenest y gegin.

"Sbïa!" gwaeddodd hi. "Sbïa ar Ianto!"




Syllodd y teulu cyfan drwy'r ffenest, ac ebychu.



Chwifiai'r sgert dartan ofnadwy bron i'r llawr. Roedd hi'n ddigon isel i ddannedd bychain miniog Ianto.



Roedd Ianto yn cael gêm gnoi wych. Llifai rhuban tartan o'i geg.




Rhuthrodd pawb allan.




Cydiodd Lleucu yn Ianto. Tynnodd Mam y peg arall, a syrthiodd sgert Heledd i'r llawr. Roedd hi'n garpiog ac wedi'i rhacsio o'r top i'r gwaelod.

"Y sgert hyfryd yna!" tuchiodd Mam. "O, y ci drwg!"




"Ydi hi – wedi'i difetha?" holodd

"Ydi. Edrych arni! Am drueni," meddai Mam.

"Ydych chi'n gwybod beth dwi'n ei feddwl?" meddai Robin. "Dwi'n credu i'r holl liwiau yna wallgofi Ianto. Chwil-hurt! Druan o Ianto."

"Mae hi'n sgert lachar iawn," meddai Mam. "Rhy llachar mewn gwirionedd."

"Mam!" gwaeddodd Heledd.







"Roeddwn i'n ei chasáu," meddai Heledd.

"Ei chasáu!" atseiniodd Mam yn syn iawn. "Pam na ddywedaist ti?"

"Allwn i ddim. Doeddwn i ddim eisiau dweud wrth Anti Siw," esboniodd Heledd.



Yn sydyn edrychodd pawb ar Lleucu.




Roedd hi'n dal coler Ianto.

"Dim ond ci bach yw e. Ond, Mam, bydd angen sgert newydd ar Heledd."



"Bydd," cytunodd Mam. "Efallai y gallen ni i gyd fynd i edrych y prynhawn yma. Cei di dy arian poced yn gynnar. Ac mae dy arian pen-blwydd gennyt ti, hefyd.

"Gwelais i sgertiau blodeuog yn y farchnad. Efallai y byddet ti'n eu hoffi nhw. Roedden nhw'n binc a glas golau. Pert iawn."




Tynnodd Heledd anadl dwfn. Curodd ei chalon yn gyflym. Dyma ei chyfle i siarad yn blwmp ac yn blaen o'r diwedd.

"O, Mam!" meddai hi. "Beth hoffwn i – beth dwi wir eisiau – yw sgert ddu."



"Du!" ebychodd Mam.
"Doeddwn i erioed wedi meddwl am hynny. Ond gallai fod yn hyfryd. Yn sicr byddai'n edrych yn well na thartan. Iawn. Bant â ni!"

Yn ei dychymyg, gwelodd Heledd ei hunan yn cerdded i mewn i'r siop. Roedd hi'n gwisgo sgert newydd ddu. Edrychai'n ffasiynol ac yn fain.



"Dylwn i fod wedi dweud wrth Anti Siw beth roeddwn i wir eisiau," meddai hi. "Ond does dim ots nawr. Mae Ianto wedi newid pethau am y gorau."



# *Am yr awdur*



On'd yw hi'n ofnadwy pan rydych chi'n agor parsel, ac yn ffeindio y tu mewn rywbeth dydych chi wir *ddim* eisiau! Ydych chi'n dweud wrth bobl? Ydych chi'n cadw'n dawel? Dyna benbleth Heledd wrth iddi agor ei hanrheg ben-blwydd ofnadwy. All hi ddim meddwl beth i'w wneud yn ei gylch. Mae hi mewn cyfyng-gyngor. Amser maith yn ôl roeddwn i'n eitha tebyg i Heledd. Petawn i'n agor llyfrau pen-blwydd oedd yn edrych yn ddiflas, neu ddillad oedd yn ofnadwy, doeddwn i ddim yn dweud wrth neb. Dim ond teimlo'n grac fyddwn i! Wrth lwc mae gan Heledd Lleucu a Ianto i'w helpu.

Dwi'n byw yn y wlad yn Swydd Efrog, a dwi wedi ysgrifennu llawer o lyfrau plant.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:**

**Pecyn A** *Sami Sgrap* gan Carolyn Bear
*Robin Woods a'i Ddynion Llon* gan Michaela Morgan
*Boris y Bochdew* gan Pippa Goodhart
*Esgidiau Glas* gan Angela Bull
*Y Datgelwr Celwyddau* gan Susan Gates
*Trip Traed Moch* gan Michaela Morgan

**Pecyn B** *Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull
*Cranwen Grachaidd* gan Pippa Goodhart
*Pasia'r Bêl, Tad-cu* gan Debbie White
*Tipyn o Boendod* gan Michaela Morgan
*Shelley Holmes, Ditectif Di-ail* gan Michaela Morgan
*Dyma Drwbwl* gan Tessa Krailing

# Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy

**"Mae'n anrheg hyfryd," meddai Mam a Dad. Yna edrychodd pawb ar Heledd.**

Druan o Heledd. Y cyfan roedd hi ei eisiau am ei phen-blwydd oedd sgert ddu. Ond roedd gan Anti Siw syniadau gwahanol. Ac roedd Anti Siw mor hyfryd a charedig. Sut y gallai Heledd ddweud y gwir wrthi?



Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 12

ISBN 0-86174-486-1

9 780861 744862

ISBN 0 86174 486 1

DRAKE